Doed awel gref i'r dyffryn

Caneuon Ffydd: Rhif 582

Doed awel gref i'r dyffryn
lle 'rŷm fel esgyrn gwyw
yn disgwyl am yr egni
i'n codi o farw'n fyw;
O na ddôi'r cyffro nefol
a'r hen orfoledd gynt
i'n gwneuthur ninnau'n iraidd
yn sŵn y sanctaidd wynt.

Ar rai a fu mor ddiffrwyth
doed y tafodau tân
i ddysgu anthem moliant
i blant yr Ysbryd Glân;
a'r golau pur a fyddo
yn foddion o lanhad,
a sôn am achub eto
yn seinio yn ein gwlad.

JOHN ROBERTS, 1910 – 84

MYFYRDOD

Fel y gwelwyd llawer o gyfnodau o'r blaen yn debyg i weledigaeth Eseciel ym mhennod 37 o'r dyffryn yn llawn o esgyrn sychion, mae John Roberts yntau yn gweld ei gyfnod ef ei hun yng ngoleuni'r weledigaeth hon. Gofynnodd yr Arglwydd i Eseciel ar ôl dangos y dyffryn llawn esgyrn iddo: 'Fab dyn, a all yr esgyrn hyn fyw?' O feddwl yn rhesymegol, y mae peth felly'n gwbl amhosibl, ond mae Eseciel yn troi'r cwestiwn yn syth ar ei ben ac yn dweud: 'O Arglwydd Dduw, ti sy'n gwybod.' Mae'n cael gorchymyn i broffwydo wrth yr esgyrn sychion hyn ac i gyhoeddi y byddan nhw'n byw eto. Dyma dasg go anodd yn wyneb yr amgylchiadau a'r ffeithiau plaen o'i gwmpas, ond bu'n ffyddlon i Dduw ac ufuddhaodd iddo, ac fe welwyd canlyniadau hynny wrth i'r esgyrn

ddod ynghyd. Galwodd Eseciel wedyn ar yr anadl i ddod o'r pedwar gwynt, 'anadla ar y lladdedigion hyn, iddynt fyw', meddai, ac fe ddaeth anadl ac fe gododd y lladdedigion hyn 'ar eu traed yn fyddin gref iawn'. Mae John Roberts yn proffwydo eto yn ein dyddiau ni ac yn erfyn yn daer am gael gweld awel gref yn dod i'r dyffryn arnom ni sydd wedi mynd yn ddiffrwyth ac yn farw'n ysbrydol, 'i'n codi o farw'n fyw'.

Mae Iesu hefyd yn sôn am yr Ysbryd Glân fel gwynt 'yn chwythu lle y myn' (Ioan 3:8). Pan oedd y credinwyr cynnar oll ynghyd yn yr un lle fe ddaeth yn sydyn 'sŵn fel gwynt grymus yn rhuthro'(Actau 2:2). Yr Ysbryd Glân oedd yno eto, yn arwyddo dechrau cyfnod newydd yn eu hanes, o dywallt yr Ysbryd allan, nid ar unigolion ar gyfer amgylchiadau penodol ond yn gyffredinol ar bawb a'i derbyniai. Dyma roi grym i'r credinwyr fod yn Eglwys a mynd i'r holl fyd fel yr oedd Iesu wedi gorchymyn iddyn nhw wneud. Mae John Roberts yn gofyn eto am y tafodau tân hynny a welwyd uwchben y rhai oedd ynghyd yn yr un lle, yn eu galluogi i siarad am fawrion weithredoedd Duw. Sonnir am o leiaf 15 o wahanol grwpiau ieithyddol yn cael clywed hyn yn eu hieithoedd eu hunain yn yr adroddiad yn llyfr yr Actau (pennod 2), ac mae awgrym bod rhagor yno heblaw hynny, ond ieithoedd wedi eu rhoi gan yr Ysbryd Glân oedden nhw. A'r Ysbryd Glân hwnnw sydd eto yn ein cynorthwyo 'i ddysgu anthem moliant', pa bynnag iaith y byddwn yn ei llefaru, boed yn 'dafodau dynion' neu 'angylion' Paul yn ei bennod fawr ar gariad (1 Cor. 13:1). Yr Ysbryd sy'n ein glanhau a'n cymhwyso ar gyfer y gwaith o ddwyn rhagor at Grist. Hwn fydd yn rhoi sêl inni i 'sôn am achub eto' ac ennill Cymru i Grist.

GWEDDI

O Dad, yr ydym ninnau fel John Roberts yn poeni'n enbyd am gyflwr eneidiau pobl ein gwlad. Gad inni weld bod yr Ysbryd yn alluog i ddod i'r dyffryn eto 'i'n codi o farw'n fyw', 'i ddysgu anthem moliant' inni, ac i beri bod 'sôn am achub eto yn seinio yn ein gwlad'. Yn enw Iesu Grist sydd wedi gadael ei Ysbryd inni. Amen.